



Panel Seibiant Anabledd a Gofal Plant CBSW

Lleoliadau Gofal Plant

Pwrpas

Pwrpas Panel Seibiant Anabledd a Gofal Plant CBSW yw ystyried ceisiadau am gyllid ar gyfer llefydd gofal plant / cefnogaeth dwylo ychwanegol / lleoliadau seibiant er mwyn

- gwella llesiant a gwytnwch teuluoedd plant ag anableddau a/neu anghenion ychwanegol
- galluogi rhieni plant ag anableddau a/neu anghenion ychwanegol i weithio neu hyfforddi.

Y diffiniad o 'Anabledd neu Angen Ychwanegol' yw: anabledd, angen iechyd cymhleth neu angen ychwanegol sy'n debygol o bara mwy na 12 mis ac sy'n cael effaith sylweddol ar fywyd bob dydd (gellir ei ystyried heb ddiagnosis). Mae'r panel yn cyfarfod yn fisol ac mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau am gyllid o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad y panel.

Disgwylir y bydd plant heb anghenion ychwanegol eisoes yn cael eu cefnogi gan nifer o wahanol sefydliadau a ddylai fod wedi'u rhestru ar y ffurflen gais. Bydd datganiadau cefnogi gan y sefydliadau hyn yn cael eu ceisio cyn y panel.

Meini Prawf

Bydd ceisiadau i'r Panel Seibiant Anabledd a Gofal Plant CBSW yn cael eu hystyried er mwyn rhoi mynediad i blant rhwng 0 a 19 oed sydd ag anabledd a/neu angen ychwanegol at ofal plant, lle

1. Mae angen y gofal plant i hyrwyddo llesiant y plentyn/teulu **neu** ni all y rhieni weithio/hyfforddi heb gefnogaeth dwylo ychwanegol ar gyfer lleoliad gofal plant **a**
2. Ni all y rhiant fforddio'r ffioedd gofal plant **neu** mae angen cefnogaeth dwylo ychwanegol i alluogi'r plentyn i fynychu **a**
3. Mae'r lleoliad wedi cymryd pob mesur rhesymol i fodloni gofynion y plentyn ac yn methu â diwallu anghenion y plentyn heb gyllid ychwanegol

Cynnig Cyllid

Mae gofal plant a gynigir drwy'r panel hwn yn cynnwys:

- Os oes angen, cyfraniad o hyd at **£4.50** yr awr tuag at gostau llefydd gofal plant ar gyfer rhieni na fyddai'n gallu fforddio'r ffioedd fel arall, gydag uchafswm o 5 awr neu **£22.50** y dydd (pa un bynnag sydd leiaf). Ni fydd yr arian a ddarperir fesul awr yn fwy na chyfradd bob awr arferol y lleoliad, a bydd nifer y sesiynau a ariennir yn gyfyngedig i 12 fel arfer.
- Os oes angen, cyfraniad o **£8.00** yr awr tuag at gostau cyflogi aelod ychwanegol o staff a fydd yn weithiwr cynhwysiant ar gyfer plentyn neu blant penodol ('Dwylo Ychwanegol').

Mae'r mwyafrif oriau o gyllid yr wythnos tuag at gost cyflogi aelod staff ychwanegol wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn:

Cyllid Dwylo Ychwanegol – Cynnig Gofal Plant

Yn Ystod y Tymor

3 oed (Addysg Gynnar) – dim mwy na 20 awr yr wythnos

3—4 oed (Meithrinfa Cyfnod Sylfaen) – dim mwy na 17.5 awr yr wythnos

Gwyliau ysgol

Dim mwy na 30 awr (3 a 4 oed) yr wythnos

Bydd y cyllid yn talu am gyfnod cyfan y cynnig gofal plant

Cyllid Dwylo Ychwanegol – i alluogi rhieni i weithio/hyfforddi

Dim mwy na 10 awr yr wythnos am 13 wythnos neu 1 tymor ysgol

Cyllid Dwylo Ychwanegol – i wella llesiant a gwytnwch teuluoedd

Dim mwy na 1 sesiwn yr wythnos (8 awr y sesiwn) am 13 wythnos neu 1 tymor ysgol

Ni allwn gymeradwyo'r cyllid ar gyfer Dwylo Ychwanegol os yw'r plentyn eisoes yn cael cyllid tebyg neu wasanaethau tebyg gan asiantaeth arall. Ni allwn gymeradwyo cyllid ar gyfer lleoliadau gofal plant lle mae'r teulu'n cael ffynonellau eraill o gyllid gofal plant ar gyfer yr un diben.

Os bydd y plentyn yn methu 3 sesiwn o ofal plant wedi'i ariannu, y lleoliad sy'n gyfrifol am hysbysu'r Gweinyddwr Panel o hyn a chaiff y cyllid ei stopio ar ôl y trydydd sesiwn a fethwyd. Bydd angen gwneud cais newydd am unrhyw gyllid dilynol. Bydd Staff CBSW yn gwneud gwiriadau ar hap.

Cyflogi Staff Dwylo Ychwanegol

Os caiff y cyllid Dwylo Ychwanegol ei gymeradwyo, caiff yr aelod staff ychwanegol ei gyflogi gan y lleoliad ei hun a bydd yn atebol i'r lleoliad hwnnw hefyd. Y lleoliad sy'n gyfrifol am dalu costau cyflogaeth ychwanegol sydd heb eu cynnwys yn y cynllun hwn. Mae'r lleoliad yn gyfrifol am sicrhau bod gan y gweithiwr gymwysterau addas a'i fod/bod yn cael gwiriad drwy broses recriwtio ddiogel a phriodol, a bod y gweithiwr yn gweithio o fewn cwmplas eu polisiau, gweithdrefnau ac unrhyw ofynion cyfreithiol ychwanegol.

Y Broses Ymgeisio

Y lleoliad gofal plant / atgyfeiriwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl wybodaeth sy'n ymwneud ag incwm a budd-daliadau'r teulu ar y ffurflen atgyfeirio yn gywir (ceisiadau cyllid lleoliad gofal plant a ariennir yn unig). Dylid gweld tystiolaeth berthnasol gan yr atgyfeiriwr cyn i'r ffurflen atgyfeirio gael ei chwblhau. Gallai methu â sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir effeithio ar benderfyniadau'r Panel yn y dyfodol o ran y lleoliad / atgyfeiriwr.

- ✓ Sicrhewch fod y meini prawf yn cael eu bodloni yn llawn cyn gwneud cais.
- ✓ Rhaid cwblhau ffurflen atgyfeirio ar wahân i bob plentyn, gan gynnwys brodyr a chwiorydd. Mae ceisiadau'n para am uchafswm o 13 wythnos neu un tymor a bydd angen gwneud cais newydd am gyllid pellach ar ôl hynny er mwyn cadarnhau'ch bod yn dal i fod yn gymwys (gweler y dyddiadau olaf ar gyfer ceisiadau ailadroddus isod).
- ✓ Ni fydd ceisiadau anghyflawn neu annarllenadwy yn cael eu hystyried gan y Panel.
- ✓ Dylid derbyn a chytuno ar geisiadau newydd gyda'r Panel Seibiant Anabledl a Gofal Plant, a hynny'n ysgrifenedig, cyn cynnig cyflogaeth/oriau ychwanegol.
- ✓ Rhaid i bob cais gael ei dderbyn 3 wythnos cyn dyddiad cychwyn arfaethedig y lleoliad. Os na fydd eich cais wedi'i dderbyn erbyn y dyddiad cau hwn, ni fyddwn yn gallu gwarantu'r dyddiad cychwyn a geisiwyd.
- ✓ Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd ceisiadau am Ddwyllo Ychwanegol yn cael eu hawdurdodi os oes sesiynau eisoes wedi'u cynnal

- ✓ Rhowch gyfeiriad e-bost gyda'ch cais. Bydd yr holl geisiadau a gymeradwyir yn cael eu cadarnhau drwy e-bost fel ein hoff ddull o gysylltu.
- ✓ Rhaid rhoi gwybod am unrhyw newid mewn amgylchiadau ar unwaith i'r Gweinyddwr Panel.

Ar gyfer pob ymholiad, ceisiadau am ffurflenni cais ychwanegol ac i gyflwyno ffurflenni cais wedi'u llenwi cysylltwch â'r Gweinyddwr Panel, manylion isod:

*Panel Seibiant Anabledd a Gofal Plant CBSW
Tîm Teuluoedd yn Gyntaf, 2il Lawr, Stryt y Lampint, Wrecsam, LL11 1AR
01978 298679 neu paneladmin@wrexham.gov.uk*

Apeliadau

Os nad ydych yn fodlon gyda'r penderfyniad a wnaed gan y panel, gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad. Mae angen cwblhau apeliadau ar ffurflenni cais, sydd ar gael trwy gysylltu â paneladmin@wrexham.gov.uk, ac mae'n rhaid cynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol neu dystiolaeth nad oedd wedi'i gynnwys yn y ffurflen gais wreiddiol er mwyn eu hystyried. Mae'n rhaid derbyn apeliadau erbyn y dydd lau cyn bob cyfarfod panel. Bydd unrhyw un sy'n cyrraedd wedi hyn yn cael eu hystyried yn y cyfarfod panel dilynol.

Canllawiau

Wrth wneud ceisiadau dylid dilyn y canllawiau isod.

- ✓ Cwblhewch bob adran o'r ffurflen atgyfeirio mor llawn â phosibl.
- ✓ Cofiwch gael yr holl lofnodion angenrheidiol.
- ✓ Teipiwch o, os yw'n bosibl, a'i anfon dros e-bost
- ✓ Dylech gynnwys yr holl ddeunydd y gofynnwyd amdano neu gadarnhau eich bod wedi gweld dystiolaeth.
- ✓ Rhowch bwynt cyswllt clir – rhif ffôn symudol a chyfeiriad e-bost
- ✓ Gwnewch lungopi o'ch cais wedi'i gwblhau cyn ei anfon, i gyfeirio ato os bydd angen i ni gysylltu â chi.
- ✓ Deliwch â cheisiadau unrhyw ariannwr am ragor o wybodaeth yn gyflym, a rhowch wybod i'r cyllidwr am unrhyw newidiadau perthnasol sy'n digwydd.
- ✓ Anfonwch eich cais o leiaf 3 wythnos cyn y dyddiad cychwyn arfaethedig